YSGOL BRYNREFAIL

LLWYDDIANT YSGOLORIAETHAU

Mae Prifysgol Bangor yn cynnig nifer o Ysgoloriaethau Mynediad bob blwyddyn er mwyn cynorthwyo myfyrwyr gyda'u hastudiaethau.

Cafwyd newyddion gwych yn Ysgol Brynrefail ynglŷn â llwyddiant dau o'n disgyblion. Cawsom wybodaeth o Brifysgol Bangor bod Enfys Mai Roberts a Sïon Elwyn Hughes wedi bod yn llwyddiannus trwy ennill ysgoloriaethau ar gyfer eu hamser yn y Brifysgol ym Mangor.

Dyfarnwyd y gwobrau fel a ganlyn :

Ysgoloriaeth Teilyngdod
Enfys Mai Roberts £2400
Sïon Elwyn Hughes £2500

Ysgoloriaeth Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol
Enfys Mai Roberts £600

Gwobrau Ysgol y Gymraeg
Sïon Elwyn Hughes £500.

Y mae pawb yn Ysgol Brynrefail yn ymfalchïo yn eu llwyddiant ac yn dymuno'r gorau oll i Enfys Mai a Siôn Elwyn.